# CARDIAU LLAFAR
# Uned 2

**Mawrth 1af**

# Mawrth 1af

Does dim lle yn y neuadd i bawb yn yr ysgol. Felly mae Eisteddfod ysgol gyfan yn amhosibl. Dylen ni gael disco neu ddiwrnod ffilmiau. Hefyd mae Eisteddfod yn hen ffasiwn erbyn heddiw!! (Josh)




Mawrth 1af ydy fy hoff ddiwrnod ysgol. Dw i wrth fy modd yn canu ac yn adrodd. Enillais i'r adrodd y llynedd ac enillodd ein côr ni. Roedden ni'n canu "Sosban Fach" - roedd yn llawer o hwyl. Hoffwn i gael cyngerdd gyda'r nos hefyd. Bydd rhieni yn hoffi gweld llawer o'r eitemau yn fy marn i. (Lois)

Gwyliau?

Cyngerdd?

Eisteddfod Ysgol?

Gwisgo coch?

Pwy oedd Dewi Sant ta beth?



# CARDIAU LLAFAR
# Uned 2

## PARTI DA









# PARTI DA!!!

Rhaid cael bwyd da, miwsig, gemau, swigod, cacen a llawer o anrhegion mewn parti da!!!

Beth sy'n bwysig mewn parti? Cerddoriaeth, dawnsio, ffrindiau – dim byd arall!!



**Yfed a Gyrru!!!**
Problem fawr ar ôl y parti



**NEWYDDION TRIST**
**Pobl ifanc dan oed yn yfed mewn parti nos Sadwrn!**




- **Parti penblwydd 18 oed**
- **Parti penblwydd 80 oed**
- **Parti diwedd arholiadau**
- **Parti priodas**
- **Parti …**

**Mae gormod o bartïon heddiw!!!**
**Rydyn ni'n chwilio am esgus i gael parti!**




# CARDIAU LLAFAR
# Uned 2

## ANIFEILIAID

# LLAFAR GRŴP











Rydyn ni'n ail-gylchu fel teulu bob wythnos. Rydyn ni'n rhoi poteli yn y banc poteli, rydyn ni'n ail-gylchu papur, card-fwrdd a phlastig. Rydyn ni'n gwneud digon! Does dim eisiau gwneud mwy!!

Beth ydy ein dyfodol?







Mae ein planed mewn perygl! Mae'r tywydd yn newid. Mae'r tymheredd yn newid. Mae'r tymhorau yn newid. Pryd ydyn ni'n mynd i stopio a helpu gwella'r planed?

Bod yn wyrdd?

Poeni am y dyfodol?



Diogelu'r dyfodol?


















# CARDIAU LLAFAR
# Uned 2

## YDY HANES YN BWYSIG?

# HANES – YN BWYSIG NEU DDIM?

Hanes ydy fy hoff bwnc ysgol. Mae'n ddiddorol ac yn bwysig iawn yn fy marn i. Yn gyntaf dylen ni wybod am hanes ein gwlad. Hefyd dylen ni ddysgu am hanes y byd. Yn olaf bydd yn helpu i feddwl am y dyfodol. Rydyn ni'n dysgu llawer o'n hanes.







Wel, mae'n gas gyda fi hanes. Mae'n ddiflas ac yn ddi-bwynt. Dw i ddim eisiau dysgu am ryfeloedd a phroblemau y byd. Heddiw sy'n bwysig, dim ddoe! Mathemateg a gwyddoniaeth sy'n bwysig yn yr ysgol. Does dim amser ar y cwricwlwm i hanes – YN BENDANT!!












Hanes Cymru?

















Owain Glyndŵr?

Barti Ddu?

Mari Jones?

Hedd Wyn?

Jemeima Niclas?

Gwynfor Evans?

S4C?

Yr Urdd?

Yr Eisteddfod?

# CARDIAU LLAFAR
## Uned 2

# GWERSYLLOEDD YR URDD

## Glan - Llyn



## Llangrannog




Es i Langrannog ym mlwyddyn chwech ac wedyn ym mlwyddyn wyth. Roedd yn wych, yn enwedig y sgïo a'r gwibgartio. Yn fy marn i mae Llangrannog yn fendigedig. Dysgais i lawer o Gymraeg yno a gwneud ffrindiau newydd. (Helen, 13 oed)

**LLAFAR GRŴP**

Es i wersyll yr Urdd Glan-Llyn ym mis Mai. Roedd yn heriol ac yn gyffrous. Fy hoff weithgaredd oedd y rafftio dwr gwyn ond roeddwn i'n hoffi bowlio deg hefyd. Mae Glan-Llyn yn helpu dysgu sgiliau newydd fel gweithio mewn tîm, ond yn ôl Mam mae'n ddrud.Hoffwn i fynd eto y flwyddyn nesaf. (Ceri, 14 oed)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'n anhygoel! | Y gwyliau gorau erioed!! | Roedd yn iawn ond mae Eurodisney yn well! | Am hwyl ond roedd yn flinedig iawn! |
| **Sam (12 oed)** | **Jo (16 oed)** | **Elan (15 oed)** | **Rob (14 oed)** |

nofio, gwibgartio, merlota, certiau, trampolîn,
sgïo, beiciau modur, cwads, cwrs antur, gwersylla, hwylio,
canwio, rafftio dŵr gwyn, bowlio deg, saethyddiaeth,
wal ddringo, adeiladu rafft, cerdded yr afon …

urdd.org

# CARDIAU LLAFAR
# Uned 2

## YR ARDAL

# YR ARDAL

Roeddwn i'n arfer byw yn y Barri ond symudais i i Hwlffordd ym mis Medi. Mae'r ardal yn iawn ond does dim siopau cyffrous yma. (Mia)





Dw i wrth fy modd yn byw ar fferm. Does dim eisiau siopau mawr, traffig trwm a llygredd. Mae bywyd yn braf yn y wlad.  (Owain)

Dw i'n byw ar fferm ger Tyddewi. Dw i'n hoffi byw yn y wlad ond mae Tyddewi yn ddiflas ofnadwy, yn enwedig yn y gaeaf!! (Rhodri)





Rydw i'n byw gyda'r teulu mewn fflat yn y ddinas – ger y siopau yng Nghaerdydd. Mae pob peth yma – y siopau, y bywyd nos, y cyfleusterau chwaraeon … Fodd bynnag, rydw i'n hoffi mynd am benwythnos i'r wlad weithiau – mae Nain yn byw ger Bedd Gelert yn y gogledd. (Yasmin)




Oes rhaid cael …

- Canolfan hamdden
- Pwll nofio
- Siopau da
- Caffi blasus
- Rinc sglefrio iâ
- Sinema deg sgrin
- Lle parcio da
- Capel / Eglwys
- Llyfrgell
- Ysgol gynradd / Ysgol uwchradd
- Parc / Lle chwarae



# SIARAD AM YR ARDAL

**Dw i'n hoffi ______**
I like ____________

**Dw i ddim yn hoffi _**
I don't like ________

**Dw i'n mwynhau ___**
I enjoy ___________

**Dw i'n mynd i _____**
I go to ___________

**Fy hoff le ydy __**
My favourite place is _

**Mae'n gas gyda fi ____**
I hate ______________

**Yn fy marn i mae __ yn ___**
In my opinion ___ is ____

**Es i ______**
I went to _____

**BLE?**
Hwlffordd
Aberdaugleddau
Penfro
Doc Penfro
Dinbych-y-pysgod
Arberth
Cilgeti
Abergwaun
Tyddewi
Wdig
Solfach
Niwgwl
Hafan Lydan

Parc Oakwood
Fferm Folly
Canolfan CC2000
Sw Parc Manor
Parc Heatherton
Sw Môr
Canolfan Dŵr Dale

**Wyt ti'n hoffi ____?**
Do you like ____?
**Wyt ti'n mynd i ___?**
Do you go to ___?
**Beth ydy dy hoff le?**
What is your favourite place?
**Pryd wyt ti'n mynd yno?**
When do you go there?
**Gyda phwy?** With who?
**Beth sydd yno?** What's there?
**Pam wyt ti'n hoffi ___?**
Why do you like ___?
**Ble wyt ti wedi bod yn ddiweddar?**
Where have you been recently?

**Wyt ti'n cytuno gyda ___?**
Do you agree with ___?
**Ydw** = Yes **Nac ydw** = No

**Dw i'n cytuno** = I agree
**Dw i'n anghytuno** = I disagree

**Mae'n ____** = It's _____ **Roedd yn ___** = It was ____

**fendigedig** = brilliant **hwyl =** fun **ddiddorol** = interesting
**wahanol** = different **gyffrous** = exciting **wych** = great
**her** = a challenge **dda** = good **iawn** = ok

**ddiflas** = boring **ofnadwy** = awful **sbwriel** = rubbish
**wastraff amser** = a waste of time **dwp** = stupid

**Dydd Llun**
**Dydd Gwener**
**Dydd Sadwrn**
**Dydd Sul**
**Bob nos**
**Every night**
**Bob dydd**
**Every day**
**Yn y gwyliau**
**In the holidays**

# YR ARDAL

**Ble wyt ti'n byw yn yr ardal?** Where do you live in the area?

**Sut fath o le ydy hi?** What kind of place is it?

**Wyt ti'n hoffi ____?** Do you like ____?

**Beth ydy'r pethau gorau?** What are the best things?

**Beth dwyt ti ddim yn hoffi?** What don't you like?

**Beth hoffet ti gael yno?** What would you like to have there?

**Sut hoffet ti newid yr ardal?** How would you like to change the area?

**Faset ti'n hoffi byw rhywle arall?**

Would you like to live somewhere else?

**Wyt ti'n cytuno gyda ____?** Do you agree with _____?

weithiau = sometimes fel arfer = usually
yn aml = often beth bynnag = however
bob amser = all the time bob tro = every time
ta beth = anyway hefyd = also eto = again
o dro i dro = from time to time o gwbl = at all
yn enwedig = especially yn anffodus = unfortunately





**Dw i'n cytuno gyda ___ = *I agree with* ___** **Dw i ddim yn cytuno gyda __** = I don't agree with ____
**Dw i'n anghytuno gyda __** = *I disagree with _____* **Mae pwynt da gyda _____ = _____** *has got a good point*
**Yn ôl ___** = *According to _____* **Mae ___ yn dweud bod ___ = ____** *says that ______*

**Dw i'n hoffi ___** I like ________ **Dw i'n mwynhau _____** = I enjoy _______ **Dw i'n mynd i _____** = I go to ______

**Dw i ddim yn hoffi ____** = I don't like ____ **Mae'n gas gyda fi ___** = I hate _______

**Mae'n well gyda fi ____** = I prefer ____ **Hoffwn i gael / fynd i ______** = I'd like to have / go to_________

**Hoffwn i weld ___** = I'd like to see ___ **mwy o raglenni ___** = more __ programmes **llai o raglenni __** = less __ programmes

**Fy hoff le ydy _____** = My favourite place is _______ **Fy nghas le ydy ___** = My worst place is ______

**Es i i ___** = I went to __ **Mwynheuais i _____** = I enjoyed **Gwelais i ___** = I saw _________

**Aethon ni ___** = We went **Mwynheuon ni _____** = We enjoyed **Gwelon ni ___** = We saw ________

**Mae _______ yn _______** = ________ is ________ **Mae'n _______** = It's _________

**Roedd yn ___** = It was __ Roedd _ ar y teledu ________ = ___________ was on TV _________

(**ddoe** = yesterday **neithiwr** = last night **heddiw** = tpday **heno** = tonight **yfory** = tomorrow **y bore ma** = this morning)

Aberdaugleddau ; Hwlffordd; Dinbych-y-pysgod ; Penfro ; Doc Penfro; Arberth; Crymych; Tyddewi; Abergwaun;
Parc Oakwood; Parc Heatherton; canolfan bowlio deg; Fferm Folly; Castell Penfro; Fferm Clerkenhill ;
traeth melin (mill) amgueddfa (museum) ffatri gaws (cheese farm) canolfan hamdden sinema pwll nofio
Llwybr yr arfordir (coastal path); mynyddoedd (mountains); byd natur

# CARDIAU LLAFAR
# Uned 2

## GWYLIAU



# GWYLIAU



Dw i'n hoffi gwyliau, yn enwedig gwyliau yn Sbaen. Fel arfer mae'r teulu yn mynd i Sbaen bob haf am fis. Mae'n gyffrous ac yn llawer o hwyl. (Robert)



NEWID GWYLIAU YSGOL!!! Syniad da neu ddim?

Gwyliau'r Nadolig : 2 wythnos
Gwyliau'r Pasg : 2 wythnos
Gwyliau'r Haf : 4 wythnos
Hanner Tymor x 3 : 2 wythnos






Es i i'r Amerig ym mis Awst. Es i Fyd Disni a ches i hwyl. Aethon ni fel teulu. Yn fy marn i mae gwyliau yn bwysig achos rydyn ni'n gallu ymlacio a mwynhau cwmni ein gilydd. (Emma)



Es i ddim ar wyliau. Dw i'n gweithio yn y siop hufen iâ yn y dref. Dw i'n cynilo arian yn ystod yr haf bob blwyddyn. Dydyn ni ddim yn mynd ar wyliau.(Ruth)



# GWYLIAU

**Dw i'n hoffi __ / Dw i ddim yn hoffi __**
I like ___ / I don't like ____

**Dw i'n mwynhau ___**
I enjoy ___________

**Fy hoff le ydy __**
My favourite place is _

**Mae'n gas gyda fi ___ / Mae'n well gyda fi _**
I hate ________ / I prefer ______

**Yn fy marn i mae __ yn ___**
In my opinion ___ is ____

**Es i ___** **Ces i ___**
I went __ I had ____

**Aethon ni ___** = We went ___
**Cawson ni ____** = We had __
**Daethon ni ___** = We came ___
**Roedd yn ____** = It was ____

**Hoffwn i fynd i ___**
I'd like to go to _____

**Hoffen ni fynd i ___** = We'd like to go to __
**Dylen ni fynd i ___** = We should go to ___

**fel arfer** = usually **weithiau** = sometimes **yn aml** = often
**hefyd** = also **bob amser** = all the time
**beth bynnag** = however **o dro i dro** = from time to time
**yn gyntaf** = firstly **yn olaf** = lastly

**GWLEDYDD**
(Countries)

**Cymru (Wales)**
**Caerdydd (Cardiff)**
**Lloegr (England)**
**Llundain (London)**
**Iwerddon (Ireland)**
**Yr Alban (Scotland)**

**Ffrainc (France)**
**Yr Almaen (Germany)**
**Yr Eidal (Italy)**
**Sbaen (Spain)**
**Awstria (Austria)**
**Norwy (Norway)**
**Tseina (China)**
**Siapan (Japan)**
**Rwsia (Russia)**
**Y Caribi (The Carribean)**

**Awstralia**
**Yr Amerig**
**Gwlad yr Iâ (Iceland)**





**Wyt ti'n wedi bod i ____?**
Have you been to ____?
**Ble est ti ___?** **Beth wnest ti?**
Where did you go ___? What did you do?
**Pryd est ti?** **Gyda phwy?**
When did you go? With who??
**Sut est ti?** **Ble arhosaist ti?**
How did you go? Where did you stay?
**Ble hoffet ti fynd?**
Where would you like to go?
**Hoffet ti fynd i ____?**
Would you like to go to ___?
**Pam wyt ti'n hoffi ___?**
Why do you like ___?

**Wyt ti'n cytuno gyda ___?**
Do you agree with ___?
**Ydw / Nac ydw**
**Dw i'n cytuno / anghytuno** = I agree / disagree
**Wrth gwrs** (of course) **Am wn i** (I suppose so)
**Dw i ddim yn siwr** (I'm not sure) **Efallai** (perhaps)

mewn = in a yn = in ar y = on the ym mis = in the month of yn ystod = during
awyren / ar y fferi / car / bws / llong (ship) / tacsi / hofrennydd (helicopter)
gwesty (hotel) / gwely a brecwast (bed and breakfast) / bwthyn (cottage) /
carafan (caravan) / pabell (tent) / maes carafannau (caravan site) / gwersyll (camp)

Torheulo = sunbathing ymweld â = to visit ymlacio = to relax mynydda = mountaineering
mynd i weld = to go to see gweithio = to work chwarae = to play siopa = shopping
gorffwyso = to rest cwrdd â = to meet with prynu = to buy gwario = to spend

# CARDIAU LLAFAR
# Uned 2

**SIOPA**

# SIOPA





MAE LLAI O BOBL YN SIOPA AR Y STRYD FAWR!!!
MAE PAWB YN SIOPA AR LEIN.

Roeddwn i'n arfer prynu dillad yn Next. A bod yn onest mae dillad Next yn trendi iawn. Ond mae un broblem. Mae athrawon ysgol yn siopa yn Next hefyd. (Jeni)




Mae labelau yn bwysig iawn i fi. Dw i'n prynu dillad Animal, River Island a White Stuff. Rhaid dilyn ffasiwn. Mae ffasiwn mor bwysig heddiw. Yn y dyfodol, hoffwn i brynu bag Prada hefyd. (Sara)

**Prynu nawr-talu yn 2020!!**

Dydy arian ddim yn tyfu ar goed!




**HELP**

Mae'n gas gyda fi siopa dillad mewn archfarchnad fel Tesco neu Asda. Does dim dewis ac mae'r siop yn fawr ac yn ddiflas (Donna)

Rhaid imi gael ...
Rhaid imi gael ...
Rhaid imi gael ...




Yn fy marn i, mae helpu elusen yn bwysig. Felly dw i'n prynu dillad yn Oxfam fel arfer. (Rhodri)




**Dyled? Problem fawr!!**

# SIARAD AM SIOPA

**Dw i'n hoffi / mwynhau ___**
*I like /enjoy ___*
**Dw i ddim yn hoffi__**
*I don't like___*
**Mae'n gas gyda fi _** *I hate _*
**Dw i'n siopa yn__** *I shop in__*
**Fy hoff siop ydy___**
*My favourite shop is___*
**Yn fy marn i mae__ yn __**
*In my opinion__is__*
**Es i___** **Ces i ___**
*I went___* *I had ___*
**Prynais i___**
*I bought____*
**Costiodd ____ = _____** *cost*
**Roeddwn i'n arfer prynu ___**
*I used to buy ______*
**Baswn i'n hoffi prynu ___**
*I'd like to buy ___*
**Hoffwn i gael =** *I'd like to have*



**Mae __ yn __ = __ is __**
**Yn fy marn i mae ___ yn ___**
In my opinion ___ is ___
**Mae __ yn costio __ = __** *costs __*
**punt** *(pound)* **ceiniog** *(pence)*

**SIOPA**
*(shopping)*

**siop ddillad**
*clothes shop*
**archfarchnad**
*supermarket*
**siop elusen**
*charity shop*
**mewn catalog**
*In a catalogue*
**dros y We**
*over the Internet*
**ddrud**
*expensive*
**rhad**
*cheap*
**rhesymol**
*reasonable*
**bargen**
*bargain*

**Wyt ti'n hoffi___?** Do you like___?
**Wyt ti'n mynd i___?** Do you go to___?
**Beth ydy dy hoff siop?** What is your favourite shop?



**Pryd wyt ti'n mynd i siopa?**
When do you go shopping?
**Pa mor aml?** How often?
**Gyda phwy?** With who?
**Beth ydy dy hoff siop ? Pam?**
What is your favourite shop? Why?



**Wyt ti'n prynu dillad gyda labelau?**
Do you buy clothes with labels?
**Pa labelau?** What labels?
**Ydy dillad gyda labelau yn bwysig? Ym mha ffordd?**
Are clothes labels important? In what way?
**Ydy dilyn ffasiwn yn bwysig?**
Is following fashion important?
**Beth sydd mewn ffasiwn nawr?** What's in fashion now?
**Fyddi di'n hapus yn prynu dillad o siop elusen?**
Would you be happy buying clothes from a charity shop?
**Pa fath o ddillad?** What type of clothes?

**Wyt ti'n cytuno gyda___?**
Do you agree with___?
**Ydw** = yes **Nac ydw** = no
**Dw i'n cytuno** = I agree
**Dw i'n angytuno** = I disagree
**Dw i ddim yn siwr** = I'm not sure
**Mae'n dibynnu =** It depends

**bob mis** – every month
**bob wythnos** – every week
**dros y penwythnos**
over the weekend
**yn ystod y gwyliau**
during the holidays
**yn ddiweddar** = recently
**yn aml** = often

# CARDIAU LLAFAR
# Uned 2

**Hoffwn i fod yn …**

# Hoffwn i fod yn ...

Safon A?

Arholiadau TGAU?

Cwrs coleg?

Prentisiaeth?

Gradd?

Hoffwn i fod yn athro chwaraeon achos dw i wrth fy modd gyda chwaraeon a dw i'n hoffi gweithio gyda phobl ifanc. Bydd rhaid imi astudio chwaraeon yn y coleg. (Tim)





Rydw i eisiau bod fel Dad. Trydanwr ydy e ac mae e'n gweithio'n galed bob dydd. Aeth e ddim i'r coleg ond mae busnes da gyda fe. Hoffwn i weithio yn y busnes gyda Dad. Bydd yn wych. (Ffred)



Penderfyniadau

Hoffwn i fod yn astronot!









Hoffwn i fod yn gogydd fel Mary Berry neu Jamie Oliver. Fy hobi ydy coginio a dw i'n astudio Technoleg Bwyd yn yr ysgol. Baswn i'n hoffi agor tŷ bwyta fy hunan. Dyna fy mreuddwyd. (Elinor)









# FORMAT...

1. Introduce yourself
2. Refer to the sheet
3. O – OPINIONS
4. R – REASONS
5. T – THIRD PERSON
6. A – AGREE / DISAGREE
7. P – PAST TENSE
8. F – FUTURE TENSE
9. Ask questions
10. Conclusion

# CARDIAU LLAFAR
# Uned 2

## PYNCIAU YSGOL

# PYNCIAU YSGOL





Dw i'n hoffi chwaraeon, yn enwedig criced a rygbi. Beth bynnag mae'n gas gyda fi Ffrangeg.

Huw







Oes digon o ddewis yn ein cwricwlwm?



Yn fy marn i mae drama yn hwyl ond dw i ddim yn hoffi hanes. Mae'n ddiflas ofnadwy!

Owain

Oes rhaid dysgu gwyddoniaeth?

Beth ydy manteision dysgu Cymraeg?

Ydy hi'n syniad da i ddysgu iaith fodern fel Ffrangeg?



Fy hoff bwnc ydy celf – mae'n wych. Dw i'n hoffi gwyddoniaeth achos mae'r athro yn garedig. Hefyd mae gweithio mewn labordy yn ddiddorol.

Sara

cbac wjec





Arholiadau TGAU?

Y FFORDD YMLAEN

ATHRAWON ysbrydoledig, gweithgar, heriol ...?



ATHRAWON llym, diflas, di-fflach ...?

# PYNCIAU YSGOL

1. Introduce yourself
2. Refer to the sheet
3. Talk about school
4. Conclusion

**fel arfer** = usually **weithiau** = sometimes
**hefyd** = also **bob amser** = all the time
**beth bynnag** = however

**PYNCIAU**
(Subjects)

**Cymraeg**
**Saesneg**
**Ffrangeg**
**Sbaeneg**

**Mathemateg**
**Gwyddoniaeth**
**Hanes**
**Addysg Grefyddol**
**Daearyddiaeth**
**Technoleg**
**Technoleg Gwybodaeth**

**Celf**
**Busnes**
**Miwsig / Cerdd**
**Drama**
**Chwaraeon**

**Wyt ti'n hoffi ____?**
Do you like ____?
**Wyt ti'n dysgu ___?**
Do you learn ___?
**Beth ydy dy hoff bwnc ysgol?**
What is your favourite school subject?
**Beth ydy dy gas bwnc ysgol?**
What is your worst school subject?
**Pryd wyt ti'n cael __?**
When do you have ___?
**Pwy sy'n dysgu ____?**
Who teaches ___?
**Beth hoffet ti ddysgu ___?**
What would you like to learn ___?

**Wyt ti'n cytuno gyda ___?**
Do you agree with ___?
**Ydw** = Yes **Nac ydw** = No

**Dw i'n cytuno** = I agree
**Dw i'n anghytuno** = I disagree

**fendigedig** = brilliant **hwyl =** fun **ddiddorol** = interesting
**ddefnyddiol** = useful **gyffrous** = exciting
**her** = a challenge **dda** = good **iawn** = ok

**ddiflas** = boring **ofnadwy** = awful **sbwriel** = rubbish
**wastraff amser** = a waste of time **dwp** = stupid

# PYNCIAU YSGOL

**Beth ydy dy hoff bwnc ysgol?** What is your favourite school subject?

**Beth ydy dy gas bwnc ysgol?** What is your worst school subject?

**Wyt ti'n hoffi ____?** Do you like ____?

**Pryd wyt ti'n cael ____?** When do you have ____?

**Pwy sy'n dysgu _____?** Who teaches ______?

**Faint o'r gloch?** What time?

**Pa ddydd?** What day? **Pa wers?** What lesson?

**Pam wyt ti'n hoffi ____?** Why do you like ____?

**Wyt ti'n cytuno gyda ____?** Do you agree with _____?



weithiau = sometimes
fel arfer = usually
yn aml = often
cyn bo hir = before long
gwaetha'r modd = worse luck
beth bynnag = however
bob amser = all the time
bob tro = every time
ta beth = anyway
hefyd = also
eto = again
o dro i dro = from time to time
o gwbl = at all
yn enwedig = especially
yn anffodus = unfortunately

**Dw i'n cytuno gyda ___ =** *I agree with* ___ **Dw i ddim yn cytuno gyda __** = I don't agree with ____
**Dw i'n anghytuno gyda __** = *I disagree with* _____ **Mae pwynt da gyda _____ =** _____ *has got a good point*
**Yn ôl ___** = *According to* _____ **Mae ___ yn dweud bod ___ =** ____ *says that* ______

**Dw i'n hoffi ___** I like _______ **Dw i'n mwynhau _____** = I enjoy _______ **Dw i'n dysgu ___** = I learn ___

**Dw i ddim yn hoffi ____** = I don't like ____ **Mae'n gas gyda fi ___** = I hate ______

**Mae'n well gyda fi ____** = I prefer ____ **Yn fy marn i mae ___ yn ___** = In my opinion _______ is ______

**Hoffwn i ddysgu ___** = I'd like to learn ____ **Hoffwn i siarad ___** = I'd like to speak ___

**Fy hoff bwnc ydy _____** = My favourite subject is ______ **Fy nghas bwnc ydy ___** = My worst subject is ___

**Dysgais i __________** = I learnt **Mwynheuais i _____** = I enjoyed _____ **Ces i ____** = I had _____

**Roedd yn ____** = It was _____ **Mae'n _______** = It's _________ **Bydd yn ____** = It will be _____

**ddiddorol** = interesting **ddefnyddiol** = useful **gyffrous** = exciting **hwyl** = fun **wych** = great

**ddiflas** = boring **wastraff amser** = a waste of time **ofnadwy** = awful **sbwriel** = rubbish **her** = a challenge

dydd Llun
dydd Mawrth
dydd Mercher
dydd Iau
dydd Gwener

**Cymraeg Saesneg Ffrangeg Almaeneg Sbaeneg Rwseg Tseinieg Mathemateg**
**Gwyddoniaeth Ffiseg Cemeg Bioleg Technoleg Technoleg Bwyd Technoleg Gwybodaeth Busnes**
**Hanes Daearyddiaeth Addysg Grefyddol Llyfrgell Cymdeithaseg Hamdden a Thwristiaeth**
**Celf Miwsig / Cerdd / Cerddoriaeth Chwaraeon Drama Addysg Bersonol Tecstiliau**

# CARDIAU LLAFAR
# Uned 2

## FFRINDIAU





# LLAFAR GRŴP
# FFRINDIAU



| |
|---|
| Mae ffrindiau yn bwysig iawn yn fy marn i. Dw i'n mynd i siopa gyda ffrindiau. Dw i'n chwarae gemau gyda ffrindiau. Dw i'n rhannu cyfrinachau gyda ffrindiau. Dw i'n siarad am broblemau gyda ffrindiau. Mae ffrindiau gwych gyda fi – diolch byth! (Jenna 16 oed) |
| Opsiwn ydy ffrindiau. Does dim rhaid cael ffrindiau. Mae ffrindiau yn ddefnyddiol weithiau ond dydyn nhw ddim yn bwysig. Dw i'n hoffi gwneud pethau ar fy mhen fy hun. Dw i'n hoffi cwmni fy hunan weithiau hefyd. Bod yn hapus sy'n bwysig a does dim rhaid cael ffrindiau i fod yn hapus. (Ben 17 oed) |









| Mae ffrind yn … | Dydy ffrind ddim yn … |
|---|---|
| garedig | hunanol |
| ddoniol | fên |
| weithgar | styfnig |
| boblogaidd | gas / greulon |
| amyneddgar | ddiog |





Wyt ti'n cytuno?



# CARDIAU LLAFAR
## Uned 2

**PROBLEMAU BOD YN IFANC**

# PROBLEMAU

Yn bendant mae problemau gyda phobl ifanc heddiw. Problemau fel smygu ac yfed dan oed.

Problemau? Dim o gwbl. Mae bywyd person ifanc yn hawdd. Does dim stress gyda ni a does dim cyfrifoldebau gyda ni. Mae bywyd yn braf!

Oes, mae problemau gyda ni, yn enwedig gyda merched. Rhaid bod yn denau. Rhaid edrych fel model. Mae'n anodd weithiau! Dw i jyst eisiau bod yn fi!!!



Dw i'n meddwl bod pobl ifanc dan bwysau. Mae arholiadau ysgol bob amser. Wedyn mae rhieni a ffrindiau yn gweiddi am sylw. Mae amser hamdden felly mor bwysig. Cadw'n ffit a bwyta'n iach ydy'r ateb wrth gwrs. Wel, dyna fy marn i!!







Bywyd anodd?

Bywyd braf






Pwysau cyfoedion?

Problem neu beidio?

